**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Drwy ebost

25 Hydref 2024

Annwyl Mark,

Newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb

Rydym yn croesawu'r sylwadau cadarnhaol a wnaed gan eich rhagflaenydd ar 1 Awst wrth ymateb i'n newidiadau arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb (y Protocol) fel y maent yn ymwneud â Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Nodwn y cyfeiriad yn llythyr eich rhagflaenydd at ddatganiad y Canghellor ar 29 Gorffennaf, sy'n cadarnhau bwriad Llywodraeth y DU i gynnal un digwyddiad cyllidol mawr y flwyddyn ac i fabwysiadu amserlen reolaidd ar gyfer adolygiadau o wariant. Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed yn y llythyr i ystyried goblygiadau'r datblygiadau hyn i amserlen gyllidebol Llywodraeth Cymru ac yn cytuno â'r dybiaeth mai dim ond diwygiadau y mae'r Pwyllgor a Llywodraeth Cymru ill dau wedi cytuno arnynt y dylai newidiadau i'r Protocol eu cynnwys.

Gan hynny, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ohirio ei adroddiad ar y Protocol a materion cysylltiedig hyd nes y bydd effaith y datblygiadau hyn yn hysbys.

I'r perwyl hwnnw, gofynnwn i chi roi eglurder ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru ar ein cynigion cyn gynted â phosibl ar ôl Cyllideb yr Hydref ar 30 Hydref, a chyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi ar 12 Rhagfyr. Byddai hyn yn caniatáu i ni gyfleu eich safbwyntiau yn ein hadroddiad.

Hoffem ddiolch i chi am barhau i ymgysylltu â'r Pwyllgor a gobeithiwn y gallwn symud ymlaen yn hyn o beth fel y gellir diweddaru prosesau cyllidebol y Senedd cyn yr etholiad yn 2026.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.